

# Sul yr Urdd

## Darllen: 1 Timotheus 4:12–16

Braint fawr i mi am flynyddoedd oedd cael cyfle i hyfforddi darpar athrawon yn y coleg. Wrth edrych yn ôl ar fy ngyrfa, mae'n sicr yn un o'r pinaclau. A hyd yn oed heddiw, mae rhai o'r myfyrwyr hynny, sy'n benaethiaid ysgolion erbyn hyn, yn dal i gysylltu â mi – weithiau i ofyn am gyngor. Un fantais fawr oedd gen i fel darlithydd oedd fy mod newydd gamu o lawr y dosbarth i'r ystafell ddarlithio, ac felly roedd gen i brofiad byw a chyfoes o beth oedd anghenion plant. Gwyddwn yn iawn am yr anawsterau a wynebai'r myfyrwyr ar eu hymarfer dysgu, ac roeddwn i bob amser yn cydymdeimlo â nhw. Yr hyn oedd yn bwysig i mi oedd bod y myfyrwyr a minnau'n dysgu oddi wrth brofiadau ein gilydd. Un gŵyn barhaus gan athrawon ysgol oedd methiant ambell fyfyrwr i ddod i lawr i lefel y plentyn. Roedden nhw'n paratoi gwaith a thasgau oedd yn rhy anodd, ac ymhell o gyrraedd y plant. Yn aml iawn, roedden nhw'n anelu'n rhy uchel, a'r plant wedyn yn camymddwyn am eu bod wedi diflasu. Yr athro da ydi'r un sy'n medru gweld trwy lygad plentyn, yr un sy'n medru sefyll ochr yn ochr â'r plentyn a cheisio deall a gwerthfawrogi ei anawsterau. Gwneud y wers yn ddealladwy – dyna'r gamp o hyd. Sut mae gwneud hyn? Y cam pwysicaf yw dechrau gyda'r plentyn a'i brofiadau. (Dyna wendid llawer iawn o wersi addysg grefyddol, wrth i'r athro fynnu dechrau efo'r Beibl yn hytrach na'r plentyn.)

Beth sy'n amlwg o safbwynt y plentyn? Ei frwdfrydedd. Mae'n rhaid porthi'r brwdfrydedd hwn. Mae sawl plentyn yn anhapus yn yr ysgol ac yn cefnu ar fywyd eglwys am ei fod yn teimlo'n ddiflas. Mae'r gwersi'n ddiflas a marwaidd, ac mae eistedd yn llonydd am awr yn y capel yn garchar i blentyn sy'n fywiog a brwdfrydig wrth natur. A dyma pam fod gweithgareddau'r Urdd mor greiddiol i fywyd plentyn. Mae'r gweithgareddau awyr agored yn ei herio a'i ymestyn, ac yn rhoi iddo brofiadau anturus a newydd. Mae'n gallu cydweithio i ddatrys problemau,

boed mewn cwch ar y llyn, neu ar ochr mynydd. Mae'r Urdd yn llenwi bywydau plant â brwdfrydedd.

Ynghlwm wrth hyn, mae'r Urdd yn porthi'r ieuenctid â syniadau newydd ac yn ehangu eu gorwelion. Pan oeddwn i'n blentyn, roedd mwyafrif gweithgareddau'r Urdd yn crynhoi o gwmpas gweithgareddau'r Eisteddfod – adrodd, canu, actio a siarad cyhoeddus. Ond erbyn hyn mae gweithgareddau'r Urdd yn ymwneud â bywyd yn ei gyflawnder.

Mae arwyddair yr Urdd yn ein hatgoffa o'n ffyddlondeb i Grist. Her i'r mudiad ym mhob cyfnod yw sianelu beiddgarwch, brwdfrydedd a syniadau newydd ac arloesol, a'u cymhathu i waith y deyrnas. O ganolbwyntio ar ffyddlondeb i'r genedl, i gyd-ddyn ac i Grist, fe ellir sianelu'r mudiad ieuenctid hwn i fod yn Urdd **Gobaith** Cymru.

### **Myfyrdod pellach:**

Beth yw nodweddion athro da?

Sut gellir pwysleisio'r elfen Gristnogol yn y mudiad? A oes angen gwneud hynny'r dyddiau hyn?